# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 4

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL

*Diogelu teitl "gweithiwr cymdeithasol" etc.*

### 111 Defnyddio teitl "gweithiwr cymdeithasol" etc.

(1) Mae'n drosedd i berson yng Nghymru nad yw wedi ei gofrestru mewn cofrestr berthnasol fel gweithiwr cymdeithasol—

(a) cymryd neu ddefnyddio teitl gweithiwr cymdeithasol,

(b) cymryd neu ddefnyddio unrhyw deitl neu ddisgrifiad sy'n ymhlygu cofrestriad fel gweithiwr cymdeithasol, neu

(c) esgus bod yn weithiwr cymdeithasol mewn unrhyw ffordd arall,

gyda'r bwriad o dwyllo person arall.

(2) Mae'n drosedd i berson yng Nghymru nad yw wedi ei gofrestru mewn cofrestr berthnasol fel gweithiwr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a ragnodir—

(a) cymryd neu ddefnyddio teitl y disgrifiad hwnnw o weithiwr gofal cymdeithasol,

(b) cymryd neu ddefnyddio unrhyw deitl neu ddisgrifiad sy'n ymhlygu cofrestriad fel gweithiwr gofal cymdeithasol o'r fath, neu

(c) esgus bod yn weithiwr gofal cymdeithasol o'r fath mewn unrhyw ffordd arall,

gyda'r bwriad o dwyllo person arall.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy.

(4) At ddibenion yr adran hon mae cofrestr yn "cofrestr perthnasol" os yw'n gofrestr a gedwir gan—

(a) GCC,
(b) Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal,
(c) Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban, neu
(d) Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (4) drwy reoliadau.